Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights
Commission

Pennu agenda newydd

Adolygiad a Chynllun Cymru am 2009/10

Pwy ydym ni

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw'r eiriolwr annibynnol dros **gydraddoldeb, hawliau dynol a chysylltiadau da** ym Mhrydain. Rydym yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006, ein rhiant-adran yw Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth.

Beth rydyn ni'n ei wneud

Rydym yn **rheoleiddiwr modern** sy'n gyfrifol am sicrhau triniaeth deg a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Fe'n sefydlwyd i sicrhau bod pawb yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Rydym o'r farn nad oes lle i effeithiau niweidiol gwahaniaethu a rhagfarn mewn cymdeithas fodern, agored.

Mae'r Senedd wedi rhoi'r tasgau i ni o hyrwyddo cydraddoldeb, gorfodi'r gyfraith, amddiffyn **hawliau dynol pawb** a dwyn pobl ynghyd i adeiladu cymunedau cryfach. Mae'r rhain yn amcanion uchelgeisiol na ellir eu cyflawni heb weithio mewn partneriaeth ag eraill a heb gymorth y cyhoedd.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn mae gennym **bwerau unigryw.** Gallwn ddwyn achosion cyfreithiol ar ran unigolion i brofi ac ymestyn yr hawl i gydraddoldeb a hawliau dynol; sefydlu ymchwiliadau i ymchwilio i ymddygiad sefydliadau; hyrwyddo a gorfodi dyletswyddau'r sector cyhoeddus; a defnyddio ein dylanwad i arwain trafodaethau newydd ar sail y dystiolaeth a gesglir ac a gyhoeddir gennym.

Cynnwys

03 Rhagair
04 Pwyllgor Cymru
07 Ein blaenoriaethau strategol
08 Sicrhau gwell deddfau
10 Sicrhau Cymru decach i bawb
12 Adeiladu Cymru heb ragfarn
14 Hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau
16 Adeiladu ein tîm
18 Prosiectau Cymru 2009/10
20 Cysylltu â ni

Rhagair

Mae'r gwaith o ddwyn pobl ynghyd wedi bod yn ganolbwynt i'n gwaith ers dechrau'r Comisiwn ym mis Hydref 2007. Ein nod oedd gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion er mwyn deall yr heriau sy'n ein hwynebu yn well, rhannu profiadau o adeiladu Cymru decach ac ysgogi camau gweithredu.

Yn **Adolygiad a Chynllun Cymru,** edrychwn yn ôl dros y deunaw mis diwethaf ar yr hyn a wnaed gennym hyd yma ac ymlaen at y gweithgareddau sydd ar y gweill ar gyfer eleni.

Rydym wedi elwa ar frwdfrydedd ac arbenigedd y rhai sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru o ddydd i ddydd. Mae **Pwyllgor Cymru** wedi cael y fraint o gyfarfod â chi yn ystod ein cyfarfodydd o gwmpas Cymru. Mae llawer ohonoch wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod sydd o'n blaen.

Diolch i'ch cyfraniadau a'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhannu gyda ni ers inni agor ein drysau, rydym wedi gallu pennu **blaenoriaethau uchelgeisiol** a chynllun gwaith i Gymru. Hoffem ddiolch yn gynnes i bawb sydd wedi cydweithio â ni.

Ein hamcan ar gyfer y flwyddyn nesaf yw **pennu agenda newydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol.** Rydym yn byw mewn amseroedd anodd ac mae hyn yn golygu ei bod hi mor bwysig bod gennym ni, a'r amrywiaeth ehangaf posibl o bartneriaid, hyder i hyrwyddo tegwch, urddas a pharch.

Mae ein cynllun gwaith ar gyfer 2009/10 yn cynnwys prosiectau i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Mesur Cydraddoldeb a hyrwyddo canfyddiadau ein Hymchwiliad Hawliau Dynol yng Nghymru. Gobeithiwn gael cydweithio â chi wrth i'n prosiectau fynd yn eu blaen.

Gyda'n gilydd credwn y gallwn fagu hyder ac ennyn cefnogaeth y cyhoedd i agenda sy'n sicrhau **Cymru well** i bawb.

Comisiynydd Cymru
Neil Wooding

Cyfarwyddydd Cenedlaethol Cymru
Kate Bennett

Pwyllgor Cymru

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Cymru sy'n bwyllgor statudol. Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod gwaith cyffredinol y Comisiwn yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi pennu cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith y Comisiwn yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys strategaethau i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl trwy ddefnyddio ymchwil, grantiau, cyfathrebiadau ac ymgysylltiad gwleidyddol.

Yr hyn sy'n sail i'n gwaith yng Nghymru yw'r gred mai'r unig ffordd y gallwn ni gyflawni ein hamcanion yw trwy **ymgysylltu ag eraill.** Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd pob dim a wnawn ni. Dyna pam mae Pwyllgor Cymru wedi canolbwyntio ar adeiladu **adeiladu perthynas waith gadarn** gyda sefydliadau ac unigolion. Dyma'r sail ar gyfer sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed ac ar gyfer hyrwyddo agendâu a gweithgareddau cyffredin.

Gwnaethom arwain mentrau gyda'r nod o **ddwyn pobl ynghyd** Roedd y rhain yn cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o Gymru i wrando ar faterion megis cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred ac oedran a'u trafod. Mae dull agored a gonest y rhai fu'n cymryd rhan yn y trafodaethau wedi bod yn allweddol i chwalu tybiaethau a chael persbectif newydd. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau hael iawn pawb sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau parhaus hyn.

Rydym yn ceisio datblygu **cymunedau pwerus** yng Nghymru. Gall y rhain fod yn gymunedau sy'n seiliedig ar ble mae pobl yn byw neu'n seiliedig ar ddiddordeb neu arfer cyffredin. Rydym yn teithio o gwmpas Cymru yn cyfarfod ag arweinwyr ym mhob ardal a phobl leol o grwpiau cydraddoldeb a hawliau dynol. Ac rydym yn cydweithio'n agos â **Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb Cymru** sy'n cynnwys 22 o sefydliadau. Mae **rhwydwaith cyflogwyr y Gyfnewidfa Gydraddoldeb** wedi tyfu ac mae'n rhannu arferion effeithiol ar ganlyniadau cydraddoldeb yn y gweithle.

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn awyddus i beidio â nodi problemau'n unig ond i awgrymu atebion hefyd. Rydym wedi archwilio a defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflawni newid - gan weithredu fel **brocer mewn trafodaethau anodd,** defnyddio tystiolaeth, hyrwyddo arferion effeithiol, cynorthwyo unigolion a sefydliadau i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a darbwyllo'r rhai sydd angen gwella. Wrth godi'n proffil trwy'r cyfryngau gobeithiwn ysgogi trafodaeth gyda'r cyhoedd ar ein materion allweddol a **phennu agenda cydraddoldeb a hawliau dynol newydd yng Nghymru.**

Dwyn pobl ynghyd

Aelodau'r pwyllgor yn:
Cynhadledd Gyfnewidfa Gydraddoldeb, Lansiad y Comisiwn, Eisteddfod a'r Noson Ymgom.

Aelodau'r Pwyllgor

Dr Neil Wooding:
Neil yw Comisiynydd Cymru ac ef sy'n cadeirio Pwyllgor Cymru, gyda chymorth Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru.

Barry Clarke:
Mae Barry yn gyfreithiwr profiadol ym maes cyfraith gwahaniaethu a chydraddoldeb.

Rhian Davies:
Rhian yw Prif Weithredwr Anabledd Cymru.

Reverend Aled Edwards:
Aled yw Prif Weithredwr CYTUN (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru).

Clifton Robinson:
Clifton yw Cadeirydd Bwrdd Prawf y Gogledd ac mae'n Arolygwr gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru.

Eleanor Williams:
Roedd Eleanor yn Aelod tan fis Medi 2008. Bellach mae'n Bennaeth Adran Gyfreithiol y Comisiwn yng Nghymru.

Dr Olwen Williams:
Ymgynghorydd meddygol yw Olwen sy'n gweithio ym maes iechyd rhywiol.

Liz Withers:
Liz yw Prif Eiriolwr Polisi Llais Defnyddwyr Cymru.

Ein blaenoriaethau strategol

Mae'r Comisiwn wedi nodi pum blaenoriaeth strategol y byddwn yn ymdrechu i'w cyflawni dros y tair blynedd nesaf. Bydd yr holl waith a wnawn, gan gynnwys Targedau Cyflawni Cymru ar gyfer 2009/10, yn ymwneud ag un neu fwy o'r blaenoriaethau hyn.

1. **Sicrhau gwell deddfau:** sicrhau a gweithredu fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol effeithiol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol.

2. **Sicrhau Cymru decach i bawb:** creu Cymru decach, lle mae gan bawb yr un cyfleoedd bywyd a mynediad i wasanaethau.

3. **Adeiladu Cymru heb ragfarn:** adeiladu cymdeithas heb ragfarn, hyrwyddo cysylltiadau da a meithrin diwylliant cydraddoldeb a hawliau dynol bywiog.

4. **Hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau:** hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau a dyletswyddau a darparu cyngor ac arweiniad amserol a chywir i unigolion a chyflogwyr.

5. **Adeiladu ein tîm:** adeiladu sefydliad awdurdodol ac ymatebol.

Mae ein llinell gymorth yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau

Sicrhau gwell deddfau

Mae arnom angen deddfau cryfach a symlach i atal gwahaniaethu ac i hyrwyddo tegwch i bawb. Ac rydym am i bobl wybod beth mae'r deddfau hyn yn ei olygu iddynt yn eu bywyd bob dydd. Dyma pam rydym yn gweithio i wella deddfwriaeth a gwella dealltwriaeth pobl ohoni.

Mae'r **Mesur Cydraddoldeb** yn gam i'w groesawu. Rydym wedi cynorthwyo sefydliadau i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r Mesur yn galluogi dyletswyddau penodol i Gymru ac rydym yn gwneud ein rhan i sicrhau dyletswyddau a all newid bywydau pobl er gwell.

Yn ein **Huwchgynhadledd Hawliau Dynol** ym mis Mawrth 2008 daethom at ein gilydd gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau i ganfod ffyrdd i sicrhau bod urddas a pharch wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus. Y llynedd gwnaethom lansio **Ymchwiliad Hawliau Dynol** pwysig i edrych ar i ba raddau y mae hawliau dynol wedi'u cynnwys yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Rhoddodd dros 50 o unigolion a sefydliadau yng Nghymru dystiolaeth i'r panel Ymchwilio. Fel rhan o'r Ymchwiliad, gwnaethom gynnal yr arolwg mwyaf erioed ym Mhrydain o agweddau pobl tuag at hawliau dynol.

Ym mis Rhagfyr 2008 gwnaethom ddathlu **pen-blwydd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn 60 oed.** Gwnaethom nodi'r achlysur trwy herio camsyniadau am hawliau dynol a thrwy annog y cyhoedd yng Nghymru i ddeall eu pwysigrwydd yn y Gymru fodern.

Gwnaethom weithio gyda'r athronydd Theodore Zeldin pan wnaethom gynnal **Noson Ymgom** i annog pobl i siarad yn fwy dwys am faterion bob dydd. Roedd gan westeion 'Fwydlen Ymgom' i ysgogi trafodaeth ar hawliau dynol. Hysbysebwyd y digwyddiad yn llwyddiannus trwy rwydweithiau cymdeithasol - ac thrwy hyn cawsom 150 o ffrindiau newydd nad oedd wedi cymryd rhan mewn digwyddiad gan y Comisiwn erioed o'r blaen.

Denodd ein prosiect **Detholiadau Dynol** rai o awduron enwocaf Cymru, gan gynnwys Rachel Trezise a Catrin Dafydd, i ysgrifennu straeon byrion yn amlinellu beth oedd hawliau dynol yn ei olygu iddyn nhw. Gwnaethom ddefnyddio'r straeon fel modd o ennyn diddordeb plant ysgol mewn hawliau dynol, hyrwyddo ein gwefan a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Noson Ymgom

Mae 93% o bobl Cymru'n cefnogi deddfau'r DU sy'n amddiffyn hawliau dynol, ond mae 83% o oedolion Cymru yn teimlo nad yw llawer o'r cyhoedd yn deall deddfau hawliau dynol.

Adroddiad Pwy ydych chi'n ei weld? gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
Cyhoeddwyd Hydref 2008

"Conglfaen cymdeithas deg yw hawliau dynol. Mae hawliau dynol yn effeithio pob bod dynol ar y ddaear, ac er mwyn sicrhau rhag anghyfiawnder yn eu bywydau, dylai pawb ar y ddaear fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol yn ogystal â hawliau pobl arall."

Rachel Trezise

Uwchgynhadledd Hawliau Dynol 2008

Sicrhau Cymru decach i bawb

Mae cael Cymru decach o fudd i bawb. Nid yn unig i'r rhai sy'n cael yr addysg, y swydd neu'r gwasanaeth maen nhw'n ei haeddu, ond i'w teuluoedd, eu cydweithwyr a'u cymuned. Dyna pam rydym yn gweithio i greu Cymru decach lle mae gan bawb yr un cyfleoedd bywyd a mynediad i wasanaethau.

Rydym wedi bod yn **cydweithio ag awdurdodau cyhoeddus** i wella cyd-raddoldeb yn eu gweithleoedd ac yn y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Rydym wedi ysgrifennu at bob corff cyhoeddus yng Nghymru yn eu hatgoffa o'u dyletswyddau mewn perthynas ag anabledd, rhyw a hil. Gwnaethom nodi enghreifftiau o'r ffordd y mae dyletswyddau'r sector cyhoeddus wedi llywio arferion effeithiol a gwella canlyniadau mewn awdurdodau cyhoeddus. Gwelsom gynnydd calonogol ac rydym yn hyrwyddo hyn yn fwy cyffredinol. Rydym hefyd yn cydweithio â sefydliadau lle gwelwyd achosion sy'n peri pryder.

Gwnaethom gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'i chanllawiau i ysgolion ynglŷn â disgyblion yn gwisgo gwisg a symbolau crefyddol er mwyn diogelu hawliau pawb.

Amlygodd ein hadroddiad **Mapio'r Bylchau 2** a'n gwefan y bylchau difrifol yn y gwasanaethau sydd ar gael i fenywod yng Nghymru sydd wedi wynebu trais. Mae'r adroddiad wedi gosod trais yn erbyn menywod yn uchel ar yr agenda wleidyddol yng Nghymru.

Mae ein partneriaeth **Cau'r Bwlch Cyflog** gyda Llywodraeth y Cynulliad ac ymgyrchoedd TUC Cymru i gau'r bwlch cyflog o 13% rhwng y rhywiau. Gwnaethom gydweithio ag awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot i nodi manteision cyflog cyfartal. Gwnaethom gynnal cynhadledd i ddarbwyllo awdurdodau lleol ynghylch manteision setlo hawliadau ôl-dâl a chyflwyno strwythurau cyflog tecach.

Amlygodd ein hadroddiad **Pwy sy'n Rhedeg Cymru?** y diffyg cynnydd dychrynllyd o ran sicrhau mwy o fenywod mewn swyddi pwerus a dylanwadol yng Nghymru. Mae angen mwy o fenywod arnom yn y swyddi uwch os ydym i gael proses benderfynu sy'n well ac yn fwy cynrychiadol. Aethom â'n hymgyrch i Gynadleddau'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Lafur, lle dangoswyd ein DVD Pwy sy'n Rhedeg Cymru?, sy'n cynnwys clipiau gyda Rhodri Morgan a Kirsty Williams, ar y prif lawr.

Nod ein cynhadledd fawr gyntaf, **Cynhadledd y Gyfnewidfa Cydraddoldeb** ym mis Mehefin 2008, oedd datblygu ein rhwydwaith o gyflogwyr sy'n ymroddedig i gydraddoldeb. Gwnaeth y gynhadledd hyrwyddo pwysigrwydd arweinyddiaeth ar gydraddoldeb. Yn ein gweithdai gwelwyd cyfranogwyr yn dyfeisio camau gweithredu penodol y gallent eu cymryd tuag at amcanion cydraddoldeb yn eu gweithleoedd.



Mae casgliadau allweddol o'n hadroddiad Pwy sy'n Rhedeg Cymru yn cynnwys:

- Ni wnaeth ein harolwg o 100 uchaf cwmnïau preifat Cymru ganfod un prif weithredwraig yng Nghymru. Ymatebodd naw deg tri o'r cant o gwmnïau i'r arolwg.
- Dim ond 9% o arweinyddion cyngor yng Nghymru sy'n fenywod. Dim ond 25% o gynghorwyr yng Nghymru sy'n fenywod. Nid oes un cynghorwr Asiaidd neu dduon yng Nghymru sy'n fenyw.

Sallie Glickman yng Nghynhadledd Gyfnewidfa Cydraddoldeb 2008

Adeiladu Cymru heb ragfarn

Sut allwn ni gyd-fyw gyda'n gilydd yn fwy cytûn yw'r cwestiwn rydyn ni'n ceisio'i ateb yn ein gwaith ar gysylltiadau da. Rydym wedi ceisio cael dealltwriaeth o agweddau pobl yng Nghymru ac yna creu gwell dealltwriaeth rhwng cymunedau ar sail ein canfyddiadau. Ein nod yw dwyn pobl ynghyd i hyrwyddo dealltwriaeth a pharch cyffredin tuag at ddiwylliannau amrywiol.

Gwnaethom gynnal ein harolwg mawr cyntaf o agweddau tuag at wahaniaethu, cydraddoldeb a chysylltiadau da yng Nghymru. Gwnaeth ein hadroddiad **Pwy ydych chi'n ei weld?** gyfleu darlun calonogol ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai pocedi o ragfarn sylweddol yn bodoli o hyd. Mae'r prosiect wedi rhoi llinell sylfaen i ni ar gyfer deall agweddau yng Nghymru. Mae rhanddeiliaid wedi cynnwys ein canfyddiadau yn eu cynlluniau gwaith a'u rhaglenni hyfforddi.

Mae'r **Prosiect Croeso,** rydym yn ei gynnal mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad, yn rhan ganolog o'n gwaith i herio rhagfarn, yn enwedig mewn ysgolion. Canlyniad cystadleuaeth yn gofyn i bobl ifanc awgrymu syniadau ar gyfer ffilm fer ar fwlio a rhagfarn yw ein DVD Croeso. Derbyniwyd dros 1000 o geisiadau o bob cwr o Gymru. Gwelodd dros ddau gan mil o bobl yr animeiddiad buddugol pan gafodd ei ddangos mewn sinemâu cyn y ffilmiau hir.

Mae ymweld â phob cwr o Gymru i sgwrsio gyda phobl newydd a chlywed safbwyntiau newydd yn rhan bwysig o'n gwaith. Aeth tîm o'r Comisiwn i'r **Eisteddfod Genedlaethol** ym mis Awst 2008 i ddathlu diwylliant Cymru. Roedd ein stondin yn boblogaidd iawn, gyda phlant ac oedolion fel ei gilydd yn awyddus i ddysgu mwy am ein gwaith. Gwnaethom gyd-noddi un o uchafbwyntiau'r wythnos sef cyngerdd gyda Cerys Matthews ymhlith eraill yn perfformio gerbron 1000 o bobl.

Mae ein **cynllun ariannu** yn datblygu gallu ar hawliau dynol. Yn 2008, gwnaethom gyflwyno dros £750,000 i 16 o sefydliadau yng Nghymru. Mae eu prosiectau yn cynnwys ymestyn rhwydwaith amlhiliol yng Nghaerfyrddin, lleihau effaith trosedd atgasedd ym Mae Abertawe, a gwella cymorth i ddioddefwyr o drais ar sail anrhydedd a phriodasau sy wedi'u gorfodi.

Mae canfyddiadau **Pwy ydych chi'n ei weld?** yn dangos bod pobl sydd â rhwydweithiau cymdeithasol eang yn llai tebygol o fod ag agweddau sy'n gwahaniaethu. Mae'r canfyddiad hwn wrth wraidd ein gwaith ar gysylltiadau da.

Cardiau post Pwy ydych chi'n ei weld?

Canfyddiadau allweddol o'n hadroddiad Pwy ydych chi'n ei weld?

- Mae'r rheiny gyda'r rhwydweithiau cymdeithasol ehangaf yn llai tebygol i ddal ymagweddau gwahaniaethol.
- Mae'r rhai sy'n aros yn yr ysgol neu'n parhau â'u haddysg lawer mwy tebygol o fod ag agwedd groesawgar a chynhwysol tuag at eraill.

Disgyblion Ysgol Gynradd Coryton yn ennill y gystadleuaeth animeiddio

Hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau

Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i sicrhau y bod modd cael gafael yn hawdd ar wybodaeth a chanllawiau ar bob mater sy'n ymwneud â chydraddoldeb, hawliau dynol a chysylltiadau da. Mae ein llinell gymorth a'n gwefan yn hollbwysig i'r perwyl hwn. Mae ein llinell gymorth yn ateb galwadau gan unigolion, cyflogwyr, darparwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr cyfreithiol.

Mae **llinell gymorth Cymru** wedi cael llawer o lwyddiannau nodedig gan gynnwys gwelliannau i wasanaethau archfarchnadoedd a theithiau hedfan. Llwyddiant pellach oedd ein gwaith gyda Jack a Wendy Thomas sydd wedi paratoi'r ffordd i blant ag anableddau dysgu gymryd rhan yng Ngemau Ysgol y DU.

Ochr yn ochr â'n gwaith gorfodi cyfreithiol ein hunain rydym yn cynorthwyo pobl eraill i herio gwahaniaethu. Gwnaethom sefydlu a chefnogi **cyrsiau ym Mhrifysgolion Caerdydd a Bangor** i hyfforddi eiriolwyr i allu dwyn achosion mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth ar bynciau yn ymwneud â chyfraith gwahaniaethu. Gwnaeth 40 o gynrychiolwyr Canolfannau Cyngor ar Bopeth ac Undebau Llafur gymryd rhan yn y cyrsiau eleni.

Mae'r Comisiwn yng Nghymru wedi gweithio i ddatblygu rhwydwaith o gyfreithwyr i nodi achosion strategol a phwysig a allai roi hwb i'r agenda cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Mae llawer o'n gwaith yn golygu ein bod yn **rhannu arbenigedd cyfreithiol** gyda'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth ac asiantaethau eraill. O ganlyniad, mae mwy o bobl yn ymwybodol o'u hawliau ac wedi magu'r hyder i herio anghydraddoldeb a datrys problemau'n addas eu hunain.

"Dwi'n hynod falch bod y gwaharddiad wedi'i godi ar gyfer Gemau Ysgol y DU. Mae'n wych i'm mab Jack ac yn hyfryd i mi. Mae Jack yn codi am 5:30 bedwar bore'r wythnos i hyfforddi ac yn mynd i'r ysgol wedyn. Yna pan ddaw adref mae'n gorffwys ac yna nofio eto yn yr hwyr. Mae'n ymroddedig iawn. Hoffai gystadlu yn y gemau Paralympaidd. Dyna freuddwyd pawb."

Wendy Thomas

Aelodau staff y Comisiwn yn lansio'r ymgyrch Eich Hawl i Hedfan ym Maes Awyr Caerdydd

Wendy, Mark a Jack Thomas

Adeiladu ein tîm

Mae'r amcanion uchelgeisiol rydyn ni wedi gosod i ni ein hunain yn golygu bod yn rhaid i'r Comisiwn fod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda iawn. Ac mae'n rhaid i ni wneud hyn mewn cyfnod o helbul economaidd a gwleidyddol.

Mae'r Comisiwn yng Nghymru wedi datblygu ei dîm - gan benodi aelodau newydd o staff i ategu'r arbenigedd a etifeddwyd o'r Comisiynau blaenorol. Sicrhau bod gennym **dîm cryf** gyda'r holl adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith oedd y cam cyntaf i wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl Cymru. Bellach, mae gennym ni'r tîm hwn. Mae'r gwaith wedi cynnwys penodi Pennaeth yr Adran Gyfreithiol i oruchwylio ein gwaith gorfodi.

Er mwyn datblygu ein gwybodaeth a chael gwell dealltwriaeth o'n blaenoriaethau, buom yn cyflwyno - ac yn gwrando - mewn dros 200 o ddigwyddiadau yn ein 18 mis cyntaf. Rydym wedi cynnal nifer o seminarau a sesiynau cwmpasu, gan ddod ag arbenigwyr mewn gwahanol feysydd ynghyd. Roedd ein digwyddiad **bord gron ar gyfeiriadedd rhywiol a chrefydd** yn llwyddiant mawr ac mae'n enghraifft o'r gwaith y mae'r Comisiwn mewn sefyllfa unigryw i'w gyflawni.

Rydym wedi bod yn datblygu sail ymchwil a thystiolaeth awdurdodol ar draws y saith maes yn ein mandad. Rydym wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth y Cynulliad a Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth ac wedi ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid i weld beth yw'r sefyllfa o ran anghydraddoldebau yng Nghymru ac ym Mhrydain.

Un prosiect a luniwyd i ddatblygu ein sail dystiolaeth yw ein hadroddiad **Materion cydraddoldeb yng Nghymru: adolygiad o ymchwil**. Mae'r ddogfen hon yn darparu adolygiad cynhwysfawr o waith ymchwil ac ystadegau sy'n ymwneud â meysydd cydraddoldeb yng Nghymru. Y nod oedd gweld lle'r oedd bylchau mewn tystiolaeth ac ystyried y goblygiadau polisi. Lansiwyd yr adroddiad mewn digwyddiadau yn y Gogledd a'r De lle bu'r rhai'n bresennol yn edrych ar ffyrdd y gall tystiolaeth cydraddoldeb ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau.

Stondin y Comisiwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol 2008

Staff y Comisiwn a bwrdd biliau symudol
Pwy ydych chi'n ei weld?

Prosiectau Cymru 2009/10

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru'n anelu at osod agenda newydd. Rydym wedi nodi 11 prosiect ar gyfer 2009/10 i'n helpu i gyflawni'r nod hwnnw.

Mesur Cydraddoldeb

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod dyletswyddau penodol a Chodau Ymarfer yn addas i'r diben yng Nghymru trwy gynghori Llywodraeth y Cynulliad ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Byddwn yn annog sefydliadau yng Nghymru i lunio cynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r Ddeddf Cydraddoldeb newydd ar waith, gan gynnwys dod â nhw ynghyd i rannu arferion effeithiol.

Deddf Hawliau Dynol

Byddwn yn lansio adroddiad ein hymchwiliad hawliau dynol i annog darparwyr gwasanaethau yng Nghymru i fabwysiadu dull hawliau dynol tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn hyrwyddo argymhellion yr adroddiad i arweinwyr gwleidyddol ac arweinwyr y sector cyhoeddus. Bydd Uwchgynhadledd Hawliau Dynol i'r sector cyhoeddus mewn partneriaeth â Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru a digwyddiadau dilynol yn galluogi unigolion a sefydliadau i ddeall y camau i'w cymryd. Byddwn yn hyrwyddo hawliau dynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Hawliau Dynol Rhyngwladol

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau ymgysylltiad a chasglu tystiolaeth wrth baratoi ar gyfer yr adroddiad cyntaf - yn 2011 - ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Unigolion ag Anableddau. Rydym am sicrhau asesiad effeithiol o'r darlun ym Mhrydain ac yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau bod dimensiwn Cymru yn cael ei gynnwys mewn ymatebion ar Gonfensiynau yn Erbyn Artaith ac ar Ddileu Gwahaniaethu ar sail Hil.

Gwasanaethau Cyhoeddus

Byddwn yn dylanwadu ar wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru trwy ryngweithio a chydweithio â Byrddau Gwasanaethau Lleol, Penaethiaid Swyddfeydd y Llywodraeth yng Nghymru, Llywodraeth y Cynulliad ac eraill. Byddwn yn cyfarfod ag arolygiaethau yng Nghymru i edrych ar y berthynas rhwng cydraddoldeb a gwelliant ac yn cyhoeddi ac yn rhannu'r hyn y gellir ei gyflawni trwy ddefnyddio dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn effeithiol.

Gweithlu'r Sector Cyhoeddus

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a TUC Cymru ar ymgyrch ar y cyd i leihau'r bwlch cyflog rhwng y ddau ryw yng Nghymru. Byddwn yn hyrwyddo arferion cyflogaeth effeithiol a

manteision mynd i'r afael â materion cydraddoldeb yn ystod y dirwasgiad trwy rwydwaith cyflogwyr y Gyfnewidfa Cydraddoldeb.

Busnes

Byddwn yn datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau ac asiantaethau busnes yng Nghymru, megis Cymorth Hyblyg i Fusnes, er mwyn hyrwyddo arferion cyflogaeth effeithiol a datblygu gwell dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth fel elfennau hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd a thwf.

Pobl Ifanc

Gan barhau â'n prosiect Croeso a'i ddatblygu, byddwn yn mynd i'r afael â rhagfarn ymysg pobl ifanc trwy gynnal sesiynau ysgol a chynnal ymgyrch i herio stereoteipio.

Dwyn Pobl Ynghyd

Byddwn yn comisiynu ymchwil sy'n datblygu canlyniadau'r adroddiad Pwy ydych chi'n ei weld? i edrych ar sut mae agweddau negyddol yn gwneud i bobl yng Nghymru deimlo. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus i fynd i'r afael â throsedd casineb a thrais yn erbyn menywod a byddwn yn cynnal ymgyrch sydd â'r nod o chwalu'r mythau sy'n cael eu hyrwyddo gan eithafwyr.

Gwasanaethau Cynghori

Byddwn yn cydweithio â'r sector cynghori i'w gwneud hi'n haws cael cyfiawnder mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol. Byddwn yn ymestyn ein rhwydwaith cyfreithiol a darparu rhaglen i feithrin gallu gyda'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth ac asiantaethau eraill i wella ansawdd y cyngor a'r canllawiau sydd ar gael. Byddwn yn darparu rhaglenni hyfforddiant ar sgiliau tribiwnlys cyflogaeth a chyfraith gwahaniaethu mewn partneriaeth â Phrifysgolion Bangor a Chaerdydd.

Dull Rheoleiddio

Byddwn yn datblygu ein dull rheoleiddio. Mae hyn yn golygu ystyried y newidiadau sydd eu hangen mewn cymdeithas a dewis y dull mwyaf effeithiol i'w cyflawni. Mae ein hopsiynau'n cynnwys: pennu agenda cydraddoldeb a hawliau dynol newydd, cynorthwyo i sicrhau bod lleisiau'n cael gwrandawiad, darparu gwybodaeth, ymgyrchu, datblygu partneriaethau a gorfodi'r gyfraith.

Tîm Cymru

Byddwn yn codi'n proffil ymysg gwleidyddion, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyhoedd. Fe wnawn ni adeiladu ein harbenigedd cyfreithiol a pholisi a pharhau i wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd trwy ddatblygu Tîm Cymru a'n cysylltiadau gyda chydweithwyr yn Lloegr a'r Alban.

Cysylltu â ni

Nod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw lleihau anghydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, cryfhau cysylltiadau da rhwng pobl a hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol.

Gallwch ddysgu mwy neu gysylltu â ni trwy ein gwefan:
www.equalityhumanrights.com

neu trwy gysylltu â'n llinell gymorth:
Ffôn: 0845 604 8810
Ffôn testun: 0845 604 8820
Ffacs: 0845 604 8830

Mae'r adroddiad hwn a mwy o wybodaeth ar gael yn
www.equalityhumanrights.com/wales

Mae copïau ar gael – e-bostiwch:
wales@equalityhumanrights.com

ISBN Number: 978-1-84206-166-4
July 2009

Printed in Wales, alcohol free recycled paper using vegetable based inks, by a printer holding Environmental Accreditation ISO 14001 and Green Dragon Level 4

© Equality and Human Rights Commission